| | |
|---|---|
| **Adroddiad I:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Tachwedd 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad/ Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Llythyr Asesu Gwelliant Cyngor Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Llythyr Asesu Gwelliant ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar 17$^{eg}$ Medi 2012. Mae'r llythyr ynghlwm yn Atodiad I.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn ag un o'r adroddiadau rheoleiddiol allanol allweddol a dderbynnir gan y Cyngor bob blwyddyn, a galluogi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i gyflawni ei swyddogaeth rheoli perfformiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor:

3.1 yn ystyried yr adroddiad, ac yn clustnodi unrhyw feysydd perfformiad sydd ag angen craffu pellach ac a ddylai felly gael eu cynllunio i mewn i Flaenraglen Waith y Pwyllgor; a

3.2 cytuno i ychwanegu Llythyr Asesu Gwelliant nesaf Swyddfa Archwilio Cymru at ei agenda ar 10$^{fed}$ Ionawr 2013.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Yr Asesiad Gwelliant yw'r prif beirianwaith i Swyddfa Archwilio Cymru roi adroddiad ar ei asesiad o berfformiad y Cyngor a'i ragolygon ar gyfer gwella. Cyhoeddwyd y Llythyr Asesu Gwelliant diweddaraf ar 17$^{eg}$ Medi 2012. Er nad oes dim argymhellion ffurfiol yn y llythyr, mae angen i'r Aelodau gael cyfle i drafod y llythyr er mwyn penderfynu a oes unrhyw agweddau arbennig ar berfformiad sydd ag angen craffu pellach.

Mae'r Llythyr Asesu Gwelliant nesaf i fod i'w gyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru cyn diwedd Tachwedd 2012. Dylai'r Pwyllgor ystyried a yw'n gallu cynnwys y llythyr hwn ar yr agenda ar gyfer ei gyfarfod ar 10$^{fed}$ Ionawr 2013.

## 5. Sut y mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Llythyr Gwelliant Blynyddol yn rhoi asesiad o berfformiad y Cyngor a hefyd o'i ragolygon ar gyfer gwella. Elfen allweddol o'r wybodaeth a ystyrir gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddrafftio'r llythyr yw perfformiad y Cyngor mewn perthynas â chyflawni'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Corfforaethol. Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru asesu Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor a'i Gynllun Corfforaethol yn ffurfiol. Nid oedd y naill ddogfen na'r llall ar gael i'w hasesu cyn cyhoeddi'r Llythyr Asesu Gwelliant hwn, gan fod fersiynau drafft y ddwy ddogfen yn cael eu trafod (a'u cymeradwyo) gan y Cyngor ar 9fed Hydref 2012. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru felly yn cynnwys gwerthusiad o'r ddwy ddogfen yn ei Lythyr Diweddaru Asesu Gwelliant sydd i fod i'w gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd 2012.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes dim goblygiadau i unrhyw feysydd gwasanaeth arbennig.

## 7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal ac a oes Sgrinio Asesu Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud?

Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru nifer o gyfweliadau gyda swyddogion ac Aelodau Etholedig perthnasol cyn drafftio'r Llythyr Asesu Gwelliant. Rhannwyd yr adroddiad drafft gyda'r Cyngor, a gofynnwyd am adborth, cyn ei gyhoeddi.

Ni fu angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb o'r adroddiad hwn, gan nad yw'n gofyn am benderfyniad a fydd yn effeithio ar staff neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Er hynny, gwnaed asesiad effaith ar gydraddoldeb yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-17, a bydd hwn yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn Llythyr Diweddaru Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru sydd i fod i'w gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd 2012.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes dim goblygiadau ariannol arwyddocaol amlwg yn codi o'r adroddiad.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno unrhyw risgiau newydd i'r Cyngor.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn hytrach na phenderfyniad, ond mae yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a yw'n dymuno ystyried meysydd perfformiad penodol i'w cynnwys yn ei flaenraglen waith.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol
Ffôn: 01824 706063